# BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

**CYFNOD: 1 CHWEFROR 2018 - 31 MAI 2018**

**CRYNODEB O’R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN CYFARFODYDD CABINET**

**Cysylltwch â’r Swyddfa Cefnogi’r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth**

| Teitl yr Adroddiad | Crynodeb o’r Materion a’r Argymhelliad Arfaethedig | Statws goleuadau traffig craffu | Ymgynghoreion | Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|

**15 Chwefror 2018**

**Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu Costau Cerbydau Hacni | Ystyried cais am gynyddu costau cerbydau hacni. | | | Cabinet |

**Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd / Buddsoddi a Datblygu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu Darpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref | Ymchwilio i’r achos busnes ar gyfer darparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref ychwanegol yng Nghaerdydd yn barod at y galw cynyddol yn y dyfodol wrth i’r ddinas ehangu yn sgîl cyflwyno safleoedd tai strategol fesul cam o’r Cynllun Datblygu Lleol a chynnal arfarniad o opsiynau safle i nodi dewis leoliad yng Nghaerdydd ar gyfer darpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref posib yn y dyfodol. | AMBER | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 | Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi perfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2017-18, gan roi cyfle i’r Cabinet i adolygu perfformiad, i ystyried unrhyw faterion sy’n codi, ac i roi unrhyw gamau adferol a ystyrir yn angenrheidiol ar waith. | Gwyrdd | | Cabinet |
| Monitro'r Gyllideb - Adroddiad Mis 9 | Bydd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa fonitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â refeniw a chyfrifon cyfalaf. Bydd hyn yn | Gwyrdd | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | cynnwys dadansoddi'r amrywiadau allweddol yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. | | | |
| Cyllideb 2018/19 | Ystyried cyllideb y Cyngor ar gyfer 2018/19 | | | Cabinet<br><br>Cyngor |
| Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol | Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus yn briodol, i sicrhau gwerth am arian ac i'w reoli mewn ffordd sy'n cefnogi amcanion ehangach y Cyngor. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor 2017-2020 yn rhoi mwy o ffocws ar gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy ei gontractau, gyda ffocws ar gyflawni mentrau polisi Llywodraeth Cymru gan gynnwys Buddion Cymunedol, Cyflogaeth Foesol mewn Cadwyni Cyflenwi a'r Siarter Agor Drysau.<br>Nod y Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol yw cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni'r mentrau hyn. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod y Cyngor yn gwella'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n ei gyflawni drwy ei waith caffael. | Gwyrdd | | Cabinet |

**Buddsoddi a Datblygu**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad Arena Aml Bwrpas | Diweddaru'r Cabinet ar y gwaith o ddewis safle ar gyfer datblygu'r project Arena Amlbwrpas ac i geisio dirprwyaethau priodol i fwrw ymlaen â'r cynnig | Ambr | Market engagement | Cabinet |
| Diweddariad Strategaeth Eiddo a'r | Nod yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar y Strategaeth Eiddo a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. | Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun rheoli Asedau Corfforaethol | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tir wrth Gyffordd 30 y M4 | Cael cytundeb gan y Cabinet i gaffael tir gerllaw Cyffordd 30 yr M4, lle saif y Ganolfan Arddio Iseldiraidd ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau safle strategol pwysig. | AMBER | | Cabinet |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Trafnidiaeth i Deithwyr | Bydd y fframwaith presennol ar gyfer darparu Trafnidiaeth i Deithwyr yn dod i ben ar 31 Awst 2018. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynlluniau i ehangu'r DPS presennol am hyd at 18 wythnos fel y gall contractau newydd gael eu cyflwyno dros gyfnod y tymor cyntaf (o ddechrau mis Medi 2018 i ddechrau mis Ionawr 2019) yn hytrach na dechrau'r holl gontractau ar yr un dyddiad. Bydd hyn yn sicrhau prosesau pontio effeithlon i gontractau newydd heb llawer o newid i gwsmeriaid. | Gwyrdd | | Cabinet |

**Mawrth 2018**

**Arweinydd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Corfforaethol 2018-21 | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhan o'r fframwaith polisi strategol a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac fe'i hystyrir bob blwyddyn gan y Cyngor. Mae'r ddogfen yn amlinellu blaenoriaethau polisi strategol ac amcanion gwella'r Cyngor, ac mae'n rhan o'r fframwaith gwella statudol wrth iddo gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi cynllun cam un, sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei flaenoriaethau | GREEN | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | gwella. Fel arfer mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymestyn dros gyfnod o 3 blynedd ac yn cael ei loywi'n flynyddol. | | | |

**Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Gofod Claddu Newydd | Bydd safle gladdu fwyaf prysur y Ddinas yn llawn o fewn y tair blynedd nesaf. Nod yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio ardal o dir y mae'r Cyngor yn berchen arni i'r gogledd o'r M4 ar yr A469 ar gyfer man mynwent newydd yn amodol ar ganiatáu ceisiadau cynllunio.<br>Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer y safle ac ymgymryd â'r gwaith o ddiddymu neu addasu'r les amaethyddol presennol sy'n gysylltiedig â'r tir. | Gwyrdd | | Cabinet |
| Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Caerdydd | Mae'r amddiffynfeydd arfordirol ledled blaendraeth Caerdydd mewn cyflwr gwael iawn ac maent yn erydu'n gyflym iawn.<br><br>Mae achos busnes amlinellol wedi'i greu gyda'r nod o wella'r amddiffynfeydd arfordirol ac afonol presennol i gynnig mwy o ddiogelwch i bobl ac eiddo yn ne-ddwyrain Caerdydd rhag erydu arfordirol a pherygl o lifogydd, ac i atal erydiad mewn dwy safle tirlenwi sydd wedi'u datgomisiynu a phriffordd fabwysiedig Rover Way.<br><br>Mae llawer o'r arfordir ledled ardal y project yn erydu, a chyda chynnydd disgwyliedig yn lefel y môr yn sgil newid yn yr hinsawdd, bydd y risg o lifogydd ac erydiad yn cynyddu yn y dyfodol. Bydd y cynllun arfaethedig yn rheoli'r risg o lifogydd i 1,116 eiddo preswyl a 72 eiddo amhreswyl dros 100 mlynedd, ynghyd ag atal erydiad pellach. Mae'r cynllun yn gyfuniad o amddiffynfeydd cerrig, codi argloddiau a gosod pyst seiliau. | Coch | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Ceisir cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â’r project i’r cam Dylunio Manwl yn rhan o Raglen Reoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru. | | | |
| Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018 i 2021 | Mae’r adroddiad yn diweddaru strategaeth rheoli gwastraff ac ailgylchu presennol y Cyngor ac yn diweddaru'r dull a'r gofynion ar gyfer 2018 tan 2021, yn unol ag uchelgais Caerdydd. | Ambr | | Cabinet |
| Rhwydwaith Gwres Rhanbarth Caerdydd | Mae gan y Ddinas sawl ffynhonnell gwres gwastraff a/neu adnewyddadwy, gan gynnwys Safle Troi Gwastraff yn Ynni Parc Trident, ffynhonnell wres ddaear naturiol, a chyfleoedd gwres gwastraff diwydiannol eraill.<br>Mae astudiaeth dichonoldeb fanwl wedi’i chyflawni i adnabod y cyfleoedd tymor byr, canolig a thymor hir i fanteisio ar y rhain fel ffynhonnell wres ddibynadwy a charbon isel i’r Ddinas. Mae’r astudiaeth wedi derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru ac “Uned Cyflawni Rhwydwaith Gwres” y Llywodraeth Ganolog.<br><br>Mae’r gwaith wedi cyflawni achos busnes manwl ar gyfer rhwydwaith yn ehangu o Barc Trident, drwy’r Bae a safleoedd datblygu allweddol eraill o amgylch Dumballs Road a Sgwâr Callaghan, gan gyrraedd prif ddefnyddwyr yn ne-ddwyrain Canol y Ddinas.<br><br>Mae’r cynnig terfynol yn cynnwys dull datblygu â dau gam, gyda’r cam cyntaf yn cyrraedd ardaloedd i’r de o'r Orsaf Ganolog.<br><br>Bydd angen cyllid grant a chefnogaeth ariannol arall er mwyn cyflawni'r cam cyntaf hwn, fydd yn fwy drud. | Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Tanwyddau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Nod y strategaeth yw pennu rôl a phrif ymrwymiadau'r Cyngor wrth gefnogi'r broses bontio i danwydd trafnidiaeth dim carbon ag allyriadau isel. Mae'r strategaeth yn rhan o elfen ar nodau a chyfrifoldebau ehangach y Cyngor yn ymwneud â rheoli Ansawdd yr Aer, a Lleihau Carbon.<br><br>Mae'r Camau Strategol yn ymwneud ag:<br>• ein harferion ein hunain o ran caffael cerbydau fflyd;<br>• mesurau i gefnogi'r gymuned ehangach wrth gael mynediad at seilwaith gwefru cerbydau;<br>• ein dylanwad ar weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau tacsi a sefydliadau partner; a<br>chefnogi arloesedd a chamau i ehangu'r cyflenwad uniongyrchol o ffynonellau ynni adnewyddadwy lleol ar gyfer trafnidiaeth. | Gwyrdd | | Cabinet |

**Plant a Theuluoedd**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Cymorth wedi'i Dargedu i'r ieuenctid ôl 16 o dan y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. | Ceisio cymeradwyaeth i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Dargedir i'r rhai ôl-16 oed ar ffurf rhaglen fewnol a gyflwynir trwy'r gyfarwyddiaeth Addysg trwy'i Wasanaeth Ieuenctid. | | | Cabinet |

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Derbyn | Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) 2016, mae'n ofyniad i'r Cyngor adolygu'r polisi Derbyn i Ysgolion bob blwyddyn. | | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid penderfynu ar Drefniadau Derbyn Ysgolion er mwyn eu rhoi ar waith ym mis Medi 2019. | | | |
| Rhaglen Band B Cyngor Caerdydd yr 21ain ganrif: Capasiti a Llywodraethu. | Yn y cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017, cadarnhaodd y Cabinet y cynlluniau blaenoriaeth i'w cyflwyno yng Nghaerdydd o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cytunwyd cyflwyno adroddiad dilynol am yr agweddau hyn ar gyflwyno, er mwyn rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau a gallu llywodraethu priodol i gyflwyno rhaglen sylweddol o'r fath. | | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol - Dileu Dyled | Diben yr adroddiad bydd cael awdurdodiad ffurfiol i ganslo dyledion Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sydd werth dros £100,000. Gwneir y cais yn unol â Rhan 3, adran 2, Cyfansoddiad y Cyngor, swyddogaeth gwneud Penderfyniad Gweithredol rhif 20. Mae'r dyledion fydd yn cael eu canslo'n fwy na'r lefel y mae gan swyddogion bwerau dirprwyedig i ymdrin â hwy, ac felly mae angen awdurdodiad y Weithrediaeth. | Gwyrdd | | Cabinet |
| Datganiad Polisi Tâl 2018/19 | Mae ar y cyngor ddyletswydd statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi cyflog bob blwyddyn. Roedd y datganiad cyntaf ar waith erbyn 31 Mawrth 2012 ac maent wedi'u cynhyrchu bob blwyddyn ers hynny. Bydd cytundeb (ac yna, cyhoeddi) y seithfed Datganiad Polisi Cyflog blynyddol hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth hon. | | | Cabinet<br><br>Cyngor |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Anghenion Tai a Digartrefedd | Diweddaru'r Cabinet ar<br>• Lefel yr angen am dai yn y ddinas<br>• Y cynnydd mewn perthynas â newid y dull o ymdrin â digartrefedd ers cyflwyniad Deddf Tai (Cymru) newydd.<br>Ystyried opsiynau eraill i fodloni'r ateb am dai. | Ambr | Cynhelir ymgynghoriad gyda phrif bartneriaid/rhanddeiliaid ynglŷn â'r cynigion cyn i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cabinet. | Cabinet |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Cynllun Busnes 2018/19 | Materion a drafodir yn y Cynllun Busnes yw:<br>• nodi diben neu fwriad yr awdurdod fel landlord tai cymdeithasol;<br>• pennu amcanion a safonau ar gyfer y gwasanaeth;<br>• cynllunio sut i gyflawni'r amcanion a'r safonau a bennir (y strategaethau);<br>• cynllunio'r gofynion o ran adnoddau a chyllid;<br>• cynnig fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd y 'busnes' tai;<br>cyfathrebu cynlluniau'r awdurdod gyda'r tenantiaid, LIC, rhanddeiliaid allweddol eraill, partneriaid a'r gymuned | Gwyrdd | | Cabinet |

**Buddsoddi a Datblygu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam 2 y Cynllun Darparu ar gyfer ISV | Bydd yr adroddiad yn amlinellu cynigion ar gyfer y camau nesaf ac yn ceisio dirprwyo awdurdod er mwyn datblygu'r cynllun cyflwyno. | Green | | Cabinet |

**Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023 | Cytuno ar Gynllun Ardal Caerdydd a'r Fro a'r Cynllun Gweithredu Ardal ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth. | Gwyrdd | | Cabinet |

**19 Ebrill 2017**

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth y Gweithlu 2018-2021 | Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r strategaeth ar gyfer gweithlu'r Cyngor yn ystod 2018-2021 er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i fodloni gofynion Uchelgais Prifddinas. | Green | Ymgynghorir â staff, rheolwyr ac undebau llafur. Hefyd bydd y strategaeth yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu ar Adolygu Polisi a Pherfformiad cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad. | Cabinet |

**Buddsoddi a Datblygu**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Achos Busnes Gofod Swyddfa Craidd | | Amber | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o Safleoedd Masnachol y Cyngor | Bydd yr adroddiad yn amlinellu dull newydd o ran rheoli lleoliadau masnachol y Cyngor. | | . Ymgysylltu â phrif randdeiliaid | Cabinet |
| Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Archaeoleg ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif ac Effeithiau Rheoli Trafnidiaeth Caerdydd (gan gynnwys Safonau Parcio) | Ystyried sylwadau a wneir am y CCA yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ac argymell i'r Cyngor y dylid eu cymeradwyo at ddibenion rheoli datblygiad. | Green | Mae ymgynghori ar y CCA yn cydymffurfio â Chynllun Cyfranogiad Cymunedol y CDLl. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos<br>• Hysbysiad cyhoeddus yn y wasg leol i hysbysu unrhyw un sydd â diddordeb.<br>• Roedd copïau o'r dogfennau i'w gweld ym mhob llyfrgell yng Nghaerdydd, yn Neuadd y Sir ac ar | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | wefan y Cyngor.<br><br>Yn ogystal, hysbyswyd cynghorwyr am yr ymgynghoriad CCA presennol ac anfonwyd e-bost/llythyr i ymgyngoreion ar y Rhestr Ymgynghoriad CCA – roedd y rhestr hon yn cynnwys y CDLl ffurfiol. | |